

22. Diweddariadau Cyfathrebu Cyflym - Newyddion

Pwysig: Cyfeiriwch at [Daflen Wybodaeth 10.1](#) i ymgyswrtu ag egwyddorion sylfaenol ychwanegu erthyglau newyddion a threfnu tudalen Newyddion y Brifysgol cyn ceisio defnyddio'r system Diweddariadau Cyfathrebu Cyflym.

Mae system newydd wedi cael ei gosod er mwyn i aelodau o'r tîm Cyfathrebu (ac aelodau eraill o staff perthnasol) allu gweld erthyglau newyddion yn fyw ar wefan y Brifysgol yn gyflym.

Camau i sicrhau bod eich erthygl newyddion yn fyw:

1. Crëwch yr Erthygl Newyddion yn yr ardal briodol o fewn yr Archif Newyddion
2. Drychweddwch yr Erthygl Newyddion i'r ardal briodol yn yr hafan Newyddion
3. Aildrefnwch yr hafan Newyddion i gadw'r trefniant cywir (1 eitem yn **main story**, a nifer o eitemau yn **top story**)
4. [Cyhoeddi'r safle Newyddion](#)
5. [Trosglwyddo'r adran Newyddion i'r safle byw](#)

Mae gwybodaeth am gamau 1-3 ar gael yn Nhaflen Wybodaeth 10.1. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau'r camau hyn cyn symud ymlaen i gamau 4 a 5.


Cam 4 - Cyhoeddi ardaloedd priodol y safle

Newyddion


Nawr eich bod wedi cwblhau camau 1-3, bydd eich erthygl newydd yn ymddangos yn gywir wrth edrych ar ragolwg yn yr adran Newyddion yn y CMS. Y cam nesaf yw sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar y "**staging server**" cyn eu gwneud yn fyw.

Yn gyntaf bydd angen i chi gyhoeddi'r adran Newyddion.


1. Yn Strwythur Safle'r CMS, cliciwch ar y botwm **Actions** i'r dde o'r brif adran Newyddion a dewiswch '**Publish branch**':




2. Bydd yn cael ei ychwanegu i'r ciw cyhoeddi a bydd neges yn ymddangos ar waelod y sgrin i gadarnhau



3. I wirio cynnydd y cyhoeddiad, cliciwch ar '**Publish channels**' yn y ddewislen '**Sites & Channels**' ar y chwith:



4. Bydd y sgrin '**Publish channels**' yn ymddangos, a bydd modd i chi weld eich cyhoeddiad o dan '**Upcoming publishes**':



5. Bydd y sgrin yn adnewyddu bob ychydig eiliadau, a phan fydd y cyhoeddiad wedi gorffen bydd yn diflannu. Gwnewch yn siŵr nad yw eich cyhoeddiad yn ymddangos yma bellach cyn symud ymlaen i gam 5.

Rydych nawr wedi cwblhau Cam 4 a dylech symud ymlaen i Gam 5.


Cam 5 - Trosglwyddo'r adran Newyddion i'r safle byw

Cyn parhau gyda Cham 5 dylech wirio bod popeth a wnaethoch yng Ngham 4 wedi bod yn llwyddiannus. I wneud hyn ewch i'r dudalen Newyddion ar y gweinydd llwyfannu i wirio ei bod yn edrych fel y dylai.

Ewch i'r ddolen hon i wirio: <http://cmspreview.aber.ac.uk/en/news/>

Os ydych chi'n hapus â sut mae'r hafan Newyddion a'r erthygl Newyddion yn ymddangos, gallwch barhau.

- I drosglwyddo'r adran Newyddion i'r safle byw, dylech agor y cyfeiriad gwe hwn yn eich porwr:
<https://cms.aber.ac.uk/jenkins/view/Comms/job/CommsTransfer/>
- Gofynnir i chi fewngofnodi - defnyddiwch eich manylion mewngofnodi a'ch cyfrinair Prifysgol arferol.
- Byddwch nawr yn gweld y sgrin drosglwyddo **Comms**:



The screenshot displays the Jenkins web interface for the 'Comms_transfer' job. The top navigation bar includes the Jenkins logo, a search bar, and user information for 'shastaff' with a 'log out' link. The main content area is titled 'Project Comms_transfer' and includes a description: 'Transfer Comms sections of the website from CMS to the live site'. Below this, there is a 'Recent Changes' section with a 'Recent Changes' link. The 'Permalinks' section lists four links for the most recent build (#541), all dated '1 day 21 hr ago'. On the left sidebar, there are navigation options like 'Back to Dashboard', 'Status', 'Changes', 'Build with Parameters', 'Favorite', and 'Open Blue Ocean'. A 'Build History' panel is open, showing a search bar and a list of builds: #541 (Dec 18, 2019 3:23 PM) and #540 (Dec 13, 2019 10:25 AM). At the bottom of the sidebar, there are links for 'Atom feed for all' and 'Atom feed for failures'.

- Cliciwch ar '**Build with Parameters**' yn y ddewislen ar y chwith.
- Cliciwch ar y gwymplen i ddewis beth yr hoffech ei drosglwyddo:

- Newyddion
 - Hysbysiadau
 - Newyddion Graddio
 - Yr Hen Goleg
- I wneud erthygl newyddion yn fyw, bydd angen i chi ddewis **News**
 - Cliciwch ar y botwm **Build** i ddechrau trosglwyddo
 - Byddwch yn gweld cynnydd y trosglwyddiad yn y panel **Build History** ar y chwith
 - Pan fydd y trosglwyddo wedi gorffen, dylai eich erthygl newyddion fod yn fyw - gwiriwch yr hafan Newyddion i weld os yw yno. Ewch i'r ddolen hon i wirio: <http://www.aber.ac.uk/en/news/>. Os na allwch weld unrhyw newidiadau, cliciwch ar Ctrl+F5 i adnewyddu'r dudalen a gwiriwch eto.

Rydych nawr wedi cwblhau Cam 5 a dylai'r broses fod wedi'i chwblhau.